# Gweithio fel cyflogai i'r unigolion rydych chi'n eu cefnogi

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys y gofynion pan fyddwch yn cael eich cyflogi gan unigolyn sy'n cyfarwyddo ei gymorth ei hun. Mae'r safon yn cynnwys datblygu eich dealltwriaeth o gymorth hunangyfeiriedig ac egluro hawliau a chyfrifoldebau eich cyflogwr a chi eich hun. Mae'n mynd i'r afael â'r angen i ddatblygu eich perthynas a sefydlu ffyrdd o weithio rydych chi'n cytuno arnynt. Mae'r safon hefyd yn cynnwys cyflawni eich rôl fel cyflogai i unigolion a chydweithio er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am unigolion a chymorth hunangyfeiriedig
2. nodi cysylltiadau rhwng cymorth hunangyfeiriedig a gwahanol fathau o gyllid ar gyfer gwasanaethau unigol
3. cefnogi unigolion i gael gafael ar wybodaeth, adnoddau a chyngor am eu cyfrifoldebau fel cyflogwyr
4. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi cryfderau, galluoedd a phrofiadau a’r math a lefel o gymorth sydd ei angen i gwrdd â’u dewisiadau a’u hanghenion
5. nodi a chytuno ar rolau, cyfrifoldebau a hawliau cyflogwr a chyflogai mewn perthynas waith
6. mynd ati ag unigolion i egluro terfynau'r berthynas waith, y ffiniau proffesiynol, y ddyletswydd gofal a'r safonau y mae'n rhaid i chi lynu atynt
7. gweithio mewn partneriaeth i nodi a chytuno ar sut y bydd risgiau’n cael eu rheoli, sut y bydd penderfyniadau sy’n effeithio ar waith yn cael eu gwneud, a sut y bydd materion yn cael eu datrys
8. penderfynu sut y bydd eich gwaith yn cael ei fonitro a'i adolygu a sut y byddwch yn cael goruchwyliaeth a chymorth ffurfiol neu anffurfiol
9. cael mynediad at ddysgu a datblygu i’ch galluogi i ymgymryd â’ch rolau a’ch cyfrifoldebau
10. rhoi ffyrdd o weithio y cytunwyd arnynt ar waith a sicrhau bod eich gweithredoedd yn cyd-fynd â'ch rôl fel cyflogai i’r unigolion rydych chi'n eu cefnogi
11. cymryd rhan mewn dulliau y cytunwyd arnynt ar gyfer goruchwylio, cefnogi a monitro eich gwaith
12. gweithio mewn partneriaeth ag unigolion ac eraill i nodi arferion da a mynd i’r afael ag unrhyw heriau neu newidiadau sy’n ofynnol
13. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer gweithio fel cyflogai i’r unigolion rydych chi’n eu cefnogi
14. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth weithio fel cyflogai i’r unigolion rydych chi’n eu cefnogi

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae cael gafael ar wybodaeth am unigolion a chymorth hunangyfeiriedig, a sut mae adolygu'r wybodaeth honno
2. y gwerthoedd sy'n sail i gymorth hunangyfeiriedig
3. y gwahanol fathau o gyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth hunangyfeiriedig
4. hawliau a chyfrifoldebau cyflogwyr a chyflogeion
5. terfynau perthynas waith, ffiniau proffesiynol a dyletswydd gofal wrth weithio fel cyflogai i'r unigolion rydych chi'n eu cynorthwyo
6. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i feithrin perthynas wrth weithio fel cyflogai i'r unigolion rydych chi'n eu cefnogi
7. y mathau a'r lefel o gymorth y gall fod angen ar unigolion i gwrdd â'u dewisiadau a'u hanghenion
8. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar weithio â'r unigolion rydych chi'n eu cefnogi
9. dylanwad diwylliant, cefndir a ysbrydolrwydd ar weithio â'r unigolion rydych chi'n eu cefnogi
10. rôl perthnasoedd, gwerthoedd ac ymddygiad ar lesiant unigolion
11. y ffactorau sy'n effeithio ar berthynas a sut i fynd i'r afael â heriau yn y berthynas rhwng cyflogwr a chyflogai
12. sut gall pŵer gael ei ddefnyddio a'i gamddefnyddio mewn perthynas rhwng cyflogwr a chyflogai
13. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth weithio â'r unigolion rydych chi'n eu cefnogi
14. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol yn y berthynas rhwng cyflogwr a chyflogai
15. pam mae cyfathrebu proffesiynol yn bwysig yn y berthynas rhwng cyflogwr a chyflogai
16. ystyriaethau allweddol wrth weithio ar eich pen eich hun yn unol â gweithdrefnau'r gweithle
17. ffyrdd y gall eich gwaith gael ei fonitro a'i adolygu gan yr unigolyn fel eich cyflogwr
18. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen i weithio fel cyflogai i'r unigolion rydych chi'n eu cefnogi
19. theorïau sy'n berthnasol i weithio fel cyflogai i'r unigolion rydych chi'n eu

cefnogi
20. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer gweithio fel cyflogai i’r unigolion rydych chi’n eu cefnogi
21. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth weithio fel cyflogai i’r unigolion rydych chi’n eu cefnogi
22. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill wrth weithio fel cyflogai i’r unigolion rydych chi’n eu cefnogi
23. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth weithio fel cyflogai i’r unigolion rydych chi’n eu cefnogi, a sut i fynd i'r afael â hyn
24. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth weithio fel cyflogai i’r unigolion rydych chi’n eu cefnogi

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Gweithio fel cyflogai i'r unigolion rydych chi'n eu cefnogi

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD332 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Gweithio fel Cyflogai, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |